**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd
Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau

3 Tachwedd 2025

Annwyl David,

**Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

Ynghlwm mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau). Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor i graffu ar y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor **Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau): Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) ("y Bil"). Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

2. Lluniwyd y datganiad hwn er mwyn helpu'r Senedd yn ystod y broses o graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig.

3. Bydd y Bil yn cyflawni'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, yn ei adroddiadau ar Adalw[1] a Dichell Fwriadol[2].

4. Diben cyffredinol y Bil yw gwella atebolrwydd Aelodau'r Senedd, ac ymgeiswyr sy'n sefyll i gael eu hethol i'r Senedd, drwy gryfhau'r systemau presennol sy'n rheoleiddio ac yn sancsiynu eu hymddygiad.

5. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer y canlynol:

- sefydlu pôl adalw er mwyn cynyddu atebolrwydd Aelodau’r Senedd;
- creu dau ddigwyddiad sbardun a fydd yn dechrau’r broses adalw, fel a ganlyn:
    - Aelod sy’n cael ei euogfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig ac yn cael dedfryd o garchar neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw’n gaeth (ac mae’n ddedfryd nad yw’n arwain at anghymhwyso awtomatig);
    - y Senedd yn cytuno i wneud Aelod yn destun pôl adalw yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad sy’n cynnwys argymhelliad i wneud yr Aelod yn destun pôl adalw.

[1] Senedd Cymru, *Atebolrwydd Aelodau Unigol – Adalw*, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Ionawr 2025
[2] Senedd Cymru, *Atebolrwydd Aelodau Unigol – Dichell Fwriadol,* y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Chwefror 2025

- gofyniad bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn datblygu canllawiau i bennu pa bryd y dylai'r sancsiwn adalw gael ei argymell gan y Pwyllgor, gan gynnwys gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus;

- creu dyletswydd ar Lywydd Senedd Cymru i bennu dyddiad ar gyfer y pôl adalw ar ôl cael ei hysbysu bod digwyddiad sbardun wedi digwydd;

- diwygiadau i swyddogaethau presennol y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd");

    - i'w alluogi i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun i achosion o Aelod yn torri rhwymedigaeth, neu bryderon am ymddygiad Aelod;

    - ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymchwilio i hunanatgyfeiriad gan Aelod o'r Senedd at y Comisiynydd.

- gofyniad bod rhaid i bob Senedd sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol;

- y gallu i'r Senedd benodi (os bydd yn dewis gwneud hynny) aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad;

- darpariaeth i alluogi'r Senedd i gyflwyno mecanwaith apelio yn rhan o'r broses safonau;

- diwygiadau i adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i fynd i'r afael â dichell fwriadol gan ymgeiswyr gwleidyddol. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Ddichell Fwriadol, mae hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud datganiadau o ffeithiau anwir mewn Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn y dyfodol.

6. Mae'r Bil yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf 2006, yn benodol, gweler diwygiadau i adran 13, adran 28(1) a (2); adrannau newydd 30A a 30B ac Atodlen newydd 1B i Ddeddf 2006.

7. Mae'r diwygiadau i adran 13 o Ddeddf 2006 yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth o fath y caniateir ei gwneud o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf 2006 i wahardd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol. Mae'r pŵer yn adran 13 wedi'i arfer yn ddiweddar i wneud Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (OS 2025/864) (y

cyfeirir ato'n aml fel y Gorchymyn Cynnal Etholiadau). Bydd y Gorchymyn hwnnw'n cael effaith ar gyfer unrhyw etholiad sy'n digwydd ar ôl 6 Ebrill 2026.

8. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent wedi'u bodloni eu bod yn angenrheidiol a bod modd eu cyfiawnhau.

## Manylion y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil

### *Rhan 1 – Adalw Aelodau o'r Senedd*

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|
| Cyfeirnod: 1<br><br>Adran: 11 | Mae'r pŵer a ddirprwyir i Weinidogion o dan adran 11 o'r Bil hwn yn sicrhau y gellir gwneud darpariaeth fanwl a'i diweddaru'n rheolaidd yn ôl yr angen mewn cysylltiad â chynnal a chwestiynu polau adalw.<br><br>Mae'r rheolau manwl sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir digwyddiad etholiadol yn gymhleth. Er enghraifft, mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") yn gwneud hynny mewn cysylltiad ag etholiadau cyffredinol i'r Senedd ac mae'n 397 tudalen o hyd.<br><br>Bwriad y polisi yw y bydd cynnal pôl adalw mor debyg â phosibl i gynnal etholiad cyffredinol i'r Senedd mewn un etholaeth – er enghraifft, rolau a chyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau, yr amserlenni cyn y pôl ac ar ddiwrnod y pôl ei hun, a nifer/lleoliad dosbarthau pôl a mannau pôl.<br><br>Disgwylir i wahaniaethau allweddol godi mewn cysylltiad â'r canlynol:<br><br>• Enwebiadau: Mae Aelod yn dod yn destun pôl adalw yn rhinwedd un o'r ddau ddigwyddiad sbardun yn digwydd, o'i gymharu â chael ei enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol;<br><br>• Rheoliadau cyllid ymgyrchoedd: Gall pleidiau gwleidyddol fynd i wariant mewn cysylltiad ag ymgeiswyr mewn etholiad cyffredinol. Mewn pôl adalw, ni fydd unrhyw ymgeiswyr ond yn hytrach "Aelod sy'n destun pôl adalw". Felly, bydd angen i reoleiddio ariannol mewn cysylltiad ag aelodau o'r fath (a thrydydd partïon eraill) mewn pôl adalw fod yn unigryw i bôl adalw. Er enghraifft, mae Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 yn creu system o "ymgyrchwyr achrededig" mewn cysylltiad â deisebau adalw Senedd y DU. |

| | |
|---|---|
| | Bydd y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 11 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chynnal pôl adalw a byddant yn darparu ar gyfer y canlynol:<br><br>(i) cynnal y pôl;<br>(ii) mecanweithiau ar gyfer cwestiynu pôl, a chanlyniadau hynny;<br>(iii) rhoi, anfon, cyflwyno neu dderbyn hysbysiadau;<br>(iv) cofrestru etholwyr;<br>(v) gosod terfynau ar dreuliau ymgyrchu a rhoddion mewn pôl adalw;<br>(vi) cyfuno polau;<br>(vii) cymhwyso troseddau (etholiadol). |
| Disgrifiad o’r Pŵer:<br>Mae adran 11 o'r Bil yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch cynnal polau adalw, yn debyg i'r pŵer a gynhwysir yn adran 13 o Ddeddf 2006 sy'n rhoi pŵer eang i Weinidogion i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynnal etholiadau i'r Senedd. | Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 11, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ("y Comisiwn"). Pan fo darpariaeth yn y rheoliadau yn ceisio gosod terfynau ar wariant ymgyrchu neu roddion, i bennu beth ddylai gael ei gynnwys mewn terfynau o'r fath, mae angen cydsyniad y Comisiwn.<br><br>Yn ogystal ag ymgynghori â'r Comisiwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn yr hyn y bydd y rheoliadau'n darparu ar ei gyfer, gan gynnwys y Bwrdd Rheoli Etholiadol o dan nawdd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.<br><br>Rhagwelir y bydd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 11 yn cynnwys darpariaeth sy'n effeithio ar wahanol gyrff cyhoeddus sydd â rôl yn y gwaith o oruchwylio a chynnal etholiadau eraill mewn modd cyfreithlon yng Nghymru a'r DU yn ehangach, gan gynnwys awdurdodau a gedwir yn ôl. Er mwyn galluogi'r pŵer i gael ei arfer yn y modd hwn, mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. |

## *Rhan 3 – Cynnal etholiadau i Senedd Cymru*

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|
| Cyfeirnod: 2<br><br>Adran: 22 | Argymhellodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – yn ei adroddiad ar ddichell fwriadol bod:<br><br>*"Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio i nodi y caiff unrhyw Orchymyn Cynnal Etholiadau a wneir o dan adran 13 gynnwys darpariaeth ar gyfer dichell fwriadol, gan sicrhau bod dichell fwriadol yn fater sy'n cael ei ystyried yn y gorchmynion cynnal etholiadau a wneir ar gyfer etholiadau yn y dyfodol."*<br><br>Mewn ymateb, mae adran 22 o'r Bil yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2006, ac wrth wneud hynny mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud datganiadau o ffeithiau anwir cyn neu yn ystod etholiad at ddibenion effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd. |
| Disgrifiad o'r Pŵer:<br><br>Mae adran 22(3) yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2006, ac wrth wneud hynny mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth, o fath y caniateir ei gwneud o dan adran 13(1)(a), sy'n gwahardd gwneud datganiadau o ffeithiau anwir wrth arfer y pŵer i wneud Gorchymyn o dan adran 13 mewn cysylltiad â chynnal etholiadau. | Mae'r "Gorchymyn Cynnal Etholiadau", a wnaed o dan adran 13 o Ddeddf 2006, yn rheoleiddio etholiadau cyffredinol i'r Senedd ar hyn o bryd, gan gynnwys nodi ystod o droseddau ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiad o'r fath. Felly, mae'n briodol bod unrhyw droseddau ychwanegol yn cael eu cynnwys o fewn Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn y dyfodol – yn hytrach na bod yn drosedd annibynnol a grëir drwy'r Bil hwn – er mwyn sicrhau cydlyniant ac eglurder o ran y gyfres o droseddau sy'n berthnasol mewn etholiad.<br><br>Mae creu trosedd bosibl mewn cysylltiad â dichell fwriadol gan ymgeiswyr yn gynnig newydd. Wrth ddatblygu unrhyw drosedd o'r fath, bydd ymgysylltiad cynhwysfawr â'r elfennau o'r system cyfiawnder troseddol a fydd yn gyfrifol am ei gweithredu - yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder - yn hollbwysig. O ystyried yr amser sydd ar gael ar gyfer pasio'r Bil hwn yn nhymor y Senedd hon, nid yw wedi bod yn bosibl ymgymryd â'r ymgysylltiad angenrheidiol wrth ddatblygu trosedd ar hyn o bryd. |

## *Rhan 4 - Cyffredinol*

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
| --- | --- |
| Cyfeirnod: 3<br><br>Adran: 23 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc. | Mae Atodlen 2 i'r Bil yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â’r darpariaethau yn y Bil. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i nodi'r holl ddarpariaethau sydd angen eu diwygio o ganlyniad i'r Bil, o ystyried yr ystod eang o ddeddfiadau mewn perthynas â chyfraith etholiadol a systemau safonau Aelodau yn ogystal â'r amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer pasio'r Bil, mae'n bosibl y byddai angen diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn gweithredu'r Bil yn effeithiol. Fel y cyfryw, mae'r pŵer yn caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Nid yw'r Bil yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau a gynhwysir mewn is-ddeddfwriaeth ac felly mae'r pŵer yn caniatáu gwneud diwygiadau o'r fath, os bydd angen.<br><br>Y bwriad fyddai bod unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn cyd-fynd yn briodol â'r darpariaethau yn y Bil.<br><br>Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu'n briodol o ran ehangder fel nad yw ond yn caniatáu darpariaeth mewn rheoliadau sy'n ddeilliadol neu'n atodol i ddarpariaethau yn y Bil, neu sy'n ganlyniadol ar ddarpariaethau yn y Bil, neu ddarpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Bil.<br><br>Os bydd y rheoliadau'n addasu deddfwriaeth sylfaenol, byddant yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r Pŵer:<br><br>Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ganlyniadol, ddeilliadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf (h.y. y Bil ar ôl iddo ddod i rym), o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi. Caiff y rheoliadau ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu deddfiadau. | |

| Manylion | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|
| Cyfeirnod: 4<br><br>Adran: 24 Dod i rym | Bydd Rhannau 2 a 4 o’r Bil yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. Bydd Rhan 3 yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.<br><br>Daw darpariaethau eraill yn y Bil, sef Rhan 1, i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn cynllunio'r broses o weithredu'r system adalw yn ofalus. Er enghraifft, ni ddylai'r digwyddiadau sbardun fod mewn grym cyn i'r rheoliadau sy'n nodi'r modd y cynhelir pôl adalw gael eu gwneud (o dan adran 11 o'r Bil). Efallai y bydd ystyriaethau hefyd o ran amseru mewn perthynas â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dyroddi'r canllawiau adalw sy'n ofynnol er mwyn i ddigwyddiad sbardun B fod yn weithredol, neu ar gyfer unrhyw angen i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Senedd i ystyried y system adalw. |
| Disgrifiad o’r Pŵer:<br><br>Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n pennu'r diwrnod y daw Rhan 1 i rym. Caiff gorchymyn o'r fath wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed a phennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. | |